# PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AM OES

**PWNC:** **STRATEGAETH CYRHAEDDIAD ADDYSG A CHYNLLUN GWEITHREDU**

**ADRODDIAD GAN: CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL – ADDYSG A GWASANAETHAU CORFFORAETHOL**

---

## 1. DIBEN YR ADRODDIAD

1.1 Cyflwyno strategaeth cyrhaeddiad Caerffili i'r Pwyllgor, o dan yr enw 'Uchelgeisiau a Rennir: cydweithio i gyflawni'r canlyniadau gorau i'n pobl ifanc', a cheisio safbwyntiau'r Aelodau ar y strategaeth a'r cynllun gweithredu cysylltiedig cyn ei gyflwyno i'r Cabinet.

## 2. CRYNODEB

2.1 Mae strategaeth cyrhaeddiad y Cyngor, 'Uchelgeisiau a Rennir' wedi'i atodi yn Atodiad 1 ac mae'r cynllun gweithredu strategol cysylltiedig wedi'i atodi yn Atodiad 2.

2.2 Mae'r strategaeth yn gosod gweledigaeth arfaethedig ar gyfer gwella cyrhaeddiad a chyflawniad ar draws ein hysgolion, sydd â chysylltiad amlwg i'r blaenoriaethau a nodwyd yn nogfen hunanwerthuso'r Cyngor a'r problemau systematig a ddaeth i'r amlwg yn ystod yr uwchgynadleddau a gynhaliwyd yn yr hydref.

2.3 Mae'r strategaeth yn cynnwys nifer o egwyddorion arweiniol a naratif ar gyfer #tîmcaerffili hefyd, sy'n cynnwys y dulliau a'r ymddygiadau a fydd yn sail i gyflawni'r strategaeth.

2.4 Mae'r cynllun gweithredu strategol sy'n atodi'r strategaeth yn nodi beth fydd yr Awdurdod Addysg Lleol, y Gwasanaeth Cyflawni Addysg a'r ysgolion eu hunain yn ei wneud i yrru gwelliant drwy'r system ysgolion yng Nghaerffili.

## 3. ARGYMHELLION

3.1 Gofynnir i aelodau'r Pwyllgor Craffu ystyried a chynnig sylwadau ar gynnwys y strategaeth cyrhaeddiad addysg a'r cynllun strategol cysylltiedig cyn ei gyflwyno i'r Cabinet i'w gymeradwyo.

## 4. RHESYMAU DROS YR ARGYMHELLION

4.1 Sicrhau y caiff safbwyntiau'r Pwyllgor Craffu eu hystyried cyn cyflwyno'r strategaeth cyrhaeddiad addysg i'r Cabinet.

## 5. YR ADRODDIAD

5.1 Mae'r strategaeth atodedig wedi bod yn cael ei datblygu ers mis Medi 2018. Nodir y camau datblygu isod:

1. Cyflwyno Cyngor Proffesiynol y Gwasanaeth Cyflawni Addysg.
2. Cynnal Diagnostig Undydd gydag uwch staff yr Awdurdod Addysg Lleol, y Gwasanaeth Cyflawni Addysg ac Aelod Cabinet i asesu perfformiad a'r materion allweddol sy'n sail i berfformiad ym mhob ysgol uwchradd
3. Cynnal Cyfarfod Uwchgynhadledd gyda phob ysgol uwchradd, lle gofynnwyd i Benaethiaid adrodd am berfformiad ac unrhyw faterion gwaelodol hysbys, ynghyd ag amlinellu eu cynlluniau ar gyfer gwella
4. Cynhaliwyd Cyfarfodydd Uwchgynhadledd eraill gydag ysgolion lle nodwyd materion penodol
5. Rhannu Blaenoriaethau Allweddol i'w gwella yn Hunanwerthusiad y Gwasanaeth Addysg gyda'r Pwyllgor Craffu, y Tîm Rheoli Corfforaethol a'r PDM.
6. Datblygu drafft cyntaf y strategaeth cyrhaeddiad sy'n cynnig y weledigaeth, y cyd-destun cychwynnol, egwyddorion arweiniol, naratif, canfyddiadau a chynlluniau
7. Gwneud adolygiadau pellach o'r drafft cychwynnol i drefnu canfyddiadau a chamau gweithredu
8. Rhannu strategaeth cyrhaeddiad ddrafft gyda'r Bwrdd Cynghori ar Addysg ym mis Rhagfyr
9. Rhannu strategaeth cyrhaeddiad ddrafft mewn cyfarfod Ysgolion sy'n Peri Pryder
10. Rhannu strategaeth cyrhaeddiad ddrafft gyda'r Pwyllgor Craffu Addysg am Oes ar 8 Ionawr 2019
11. Dylunio a brandio'r strategaeth cyrhaeddiad ddrafft
12. Rhannu'r strategaeth cyrhaeddiad drafft a'r cynllun strategol cysylltiedig gyda:

    - Phenaethiaid Ysgolion Uwchradd Caerffili
    - Fforwm ymgynghori Penaethiaid Ysgolion Cynradd Caerffili
    - Tîm Rheoli Corfforaethol
    - Bwrdd Cynghori ar Addysg

Bydd y strategaeth a'r cynllun, ar ôl trafodaeth bellach yn y Pwyllgor Craffu hwn, yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet i gael ei gymeradwyo yn ei gyfarfod ar 13 Mawrth.

5.2 Disgrifir y weledigaeth arfaethedig yn y strategaeth fel a ganlyn:

"Codi safonau a sicrhau bod ein dysgwyr yn iach, yn hyderus, yn falch ac yn uchelgeisiol, a'u bod yn gallu elwa ar gyfleoedd, lleoliadau a phrofiadau addysgol o ansawdd."

5.3 Mae cyfres o egwyddorion arweiniol a sefydlwyd gan Bartneriaeth Dysgu Caerffili fel ffordd o sicrhau rhagoriaeth dysgu wedi'u cynnwys yn y strategaeth er mwyn cefnogi ei gyflawniad.

5.4 Mae'r strategaeth hefyd yn cynnwys naratif ddrafft ar gyfer #TîmCaerffili a dyma'r dull y mae'r Cyngor yn bwriadu ei ddefnyddio ar gyfer popeth y bydd yn ei wneud i wella canlyniadau. Mae'r naratif yn alinio'n uniongyrchol â phedwar amcan galluogi ym mholisi Llywodraeth Cymru, Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl.

5.5 Dyma rai o'r prif flaenoriaethau a chanfyddiadau a nodwyd yn y strategaeth:

- Gwella canlyniadau ar ddiwedd Cyfnodau Allweddol 4 a 5.
- Gwella perfformiad disgyblion bechgyn a disgyblion sy'n derbyn prydau ysgol am ddim ar draws pob cyfnod addysg.
- Adeiladu ar y cynnydd diweddar mewn data presenoldeb i gyflawni gwelliannau dros amser.
- Lleihau nifer y gwaharddiadau ar draws ysgolion uwchradd yn unol â data rhanbarthol a chenedlaethol.
- Mae angen i arweinwyr allu cael mynediad at gefnogaeth a chyfleoedd datblygu o ansawdd, a gallu manteisio arnynt yn llwyr.
- Canolbwyntio ar wella safonau llythrennedd, yn enwedig ym mlynyddoedd 7, 8 a 9
- Gwella ansawdd dysgu ac addysgu drwy ganolbwyntio'n fwy ar arferion dysgu a'r ystafell ddosbarth
- Sicrhau bod pob ysgol yn manteisio ar gyfleoedd dysgu proffesiynol
- Gwella gwytnwch arweinwyr, uwch dimau arwain ac ysgolion, gyda rhaglen gymorth ychwanegol wedi'i theilwra

5.6 Mae cynllun strategol wedi'i atodi sy'n cynnwys y camau a fydd yn sicrhau gwelliant. Mae'r cynllun wedi'i rannu'n gamau gweithredu ar gyfer ysgolion, yr Awdurdod Addysg Lleol a'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg.

**Casgliad**

5.7 Mae'r ddogfen 'Uchelgeisiau a Rennir' ynghyd â'r Cynllun Strategol atodedig yn nodi cynlluniau'r Cyngor ar gyfer codi lefelau cyrhaeddiad a chyflawniad ar draws y Fwrdeistref. Nid yw hyn yn rhywbeth y gall y Cyngor ei gyflawni ar ei ben ei hun; mae'r camau gweithredu a nodwyd yn y Cynllun Strategol yn nodi'n glir bod yr

Ysgolion a'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg yn bartneriaid cydradd wrth godi safonau. Mae'r ddogfen hefyd wedi'i dylunio i sicrhau y caiff dull y Cyngor a'i bartneriaid o wella ei gydnabod i fod yr un mor bwysig, os nad yn fwy pwysig, na'r camau sydd wedi'u cynnwys ynddo.

## 6. RHAGDYBIAETHAU

6.1 Dylai'r adran hon nodi pa ragdybiaethau a wnaed wrth gynnig yr argymhellion yn yr adroddiad. Gallai'r rhagdybiaethau gynnwys, ymhlith pethau eraill, chwyddiant, costau, gwariant, poblogaeth, polisi, y galw am wasanaeth ac ati. Os na wnaed rhagdybiaethau neu os ystyriwyd eu bod yn hanfodol, yna dylid nodi hyn.

## 7. CYSYLLTIADAU Â PHOLISÏAU PERTHNASOL Y CYNGOR

7.1 Mae'r strategaeth a'r cynllun cysylltiedig yn ategu'r gwaith o ddarparu a datblygu'r Cynllun Corfforaethol, yn benodol Amcan Llesiant 1 y mae'r Cyngor wedi'i fabwysiadu - sef gwella cyfleoedd addysg i bawb.

7.2 Yn yr amcan hwn, mae'r strategaeth yn ceisio gwneud cynnydd penodol ar y canlyniadau canlynol:

2. Codi safonau cyrhaeddiad.
3. Lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad ar gyfer cymwysterau galwedigaethol a rhai nad ydynt yn alwedigaethol, i sicrhau cyfle cyfartal.
6. Gwella ‘Sgiliau Digidol’ i bobl o bob oed.
7. Gwella’r amgylchedd dysgu.
8. Diogelu pob plentyn a pherson ifanc er mwyn creu hinsawdd ar gyfer dysgu, yn arbennig i’r rheiny sydd fwyaf agored i niwed.

## 8. LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL

8.1 Mae'r strategaeth yn cyd-fynd â'r Amcanion Llesiant canlynol yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015:

- Cymru lewyrchus - bydd 'Uchelgeisiau a Rennir' yn helpu i ddatblygu poblogaeth fedrus wedi'i haddysgu'n dda mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn darparu cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu pobl i fanteisio ar y cyfoeth a gaiff ei greu drwy sicrhau gwaith boddhaol.

- Cymru sy'n fwy cyfartal – Bydd y strategaeth yn canolbwyntio ar godi safonau ar gyfer grwpiau sy'n agored i niwed, a fydd yn helpu i greu cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial waeth beth yw eu cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu hamgylchiadau a'u cefndiroedd economaidd-gymdeithasol).

8.2 Mae'r strategaeth yn cyfrannu at y pum ffordd o weithio fel a ganlyn:

**Hirdymor** – Gobeithir y bydd y strategaeth yn gosod y sylfeini a'r ymyriadau

sydd eu hangen i sicrhau gwelliant cynaliadwy mewn cyrhaeddiad dros yr hirdymor a chreu gweithlu medrus ac uchelgeisiol ar gyfer dyfodol Caerffili.

**Atal** – Drwy gynyddu'r cyfleoedd i bob dysgwr gyrraedd eu llawn botensial drwy'r llwybr mwyaf priodol, dylai'r tebygolrwydd bod y dysgwyr hynny'n mynd ymlaen i sicrhau cyflogaeth hirdymor a dod yn hunanddibynnol gynyddu.

**Integreiddio** – Mae'r strategaeth wedi'i dylunio i alinio ac i integreiddio gwaith yr Ysgolion, yr Awdurdod Addysg Lleol a'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg

**Cydweithio** – Rhannwyd y ddogfen strategaeth gyda phob Awdurdod Addysg Lleol yng Ngwent, ac fe'i lluniwyd yn seiliedig ar arferion da a nodwyd ar draws y rhanbarth. Bydd cyfleoedd i gydweithio ar gamau gweithredu yn cael eu harchwilio maes o law.

**Cyfranogiad** – Mae'r broses sydd wedi llywio'r strategaeth hyd yma wedi cynnwys Penaethiaid a Chadeiryddion Llywodraethwyr ysgolion uwchradd, y Gwasanaeth Cyflawni Addysg, yr Awdurdod Addysg Lleol a nifer o weithwyr proffesiynol allanol. Fel rhan o ymgynghoriad ehangach ar y strategaeth, mae cyfranogiad rhanddeiliaid wedi'i ehangu i gynnwys Llywodraeth Cymru.

**9. GOBLYGIADAU CYDRADDOLDEB**

9.1 Nid oes angen Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb gan mai at ddibenion gwybodaeth yn unig mae'r materion yr ymdrinnir â nhw, ac felly nid oes angen gweithredu proses lawn y Cyngor ar gyfer asesu effaith ar gydraddoldeb ar y cam hwn.

**10. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

10.1 Disgwylir y bydd unrhyw fuddsoddiad sydd ei angen yn cael ei ariannu gan danwariant blynyddol y gyfarwyddiaeth, yn ddibynnol ar y gymeradwyaeth sydd ei hangen.

**11. GOBLYGIADAU PERSONÉL**

11.1 Dim.

**12. YMGYNGHORIADAU**

12.1 Ymgynghorwyd â'r canlynol ar y strategaeth arfaethedig ar wahanol gamau o'i datblygiad:

- Y Cynghorydd Philippa Marsden, Aelod Cabinet dros Addysg a Chyflawniad
- Aelodau Cabinet (drwy'r PDM)
- Christina Harry, Prif Weithredwr Dros Dro

- Tîm Rheoli Corfforaethol
- Debbie Harteveld, Rheolwr Gyfarwyddwr, y Gwasanaeth Cyflawni Addysg
- Penaethiaid Ysgolion Uwchradd Caerffili
- Bwrdd Cynghori ar Addysg
- Swyddogion Statudol o Awdurdodau Addysg Gwent
- Pwyllgor Craffu Addysg am Oes
- Fforwm ymgynghori Penaethiaid Ysgolion Cynradd Caerffili

**13. PŴER STATUDOL**

13.1 Deddfau Llywodraeth Leol 1998 a 2003.

Awdur: Richard Edmunds, Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol
e-bost: edmunre@caerffili.gov.uk

Ymgyngoreion: Y Cynghorydd Philippa Marsden, Aelod Cabinet dros Addysg a Chyflawniad
Christina Harry, Prif Weithredwr Dros Dro
Keri Cole, Prif Swyddog Addysg
Debbie Harteveld, Rheolwr Gyfarwyddwr y Gwasanaeth Cyflawni Addysg
Y Cynghorydd Colin Mann, Arweinydd Grŵp Plaid Cymru

Atodiadau:
Atodiad 1 Strategaeth Cyrhaeddiad Addysg, ‘Uchelgeisiau a Rennir’
Atodiad 2 Cynllun Strategol